

CYMRAEG



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg:
dadansoddiad data**

Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data

Cynulleidfa

Cyrff sy'n ymwneud â'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg, neu sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys: ysgolion, partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA), undebau athrawon, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, awdurdodau lleol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol (AGAA), y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, darparwyr y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, CYDAG, adrannau Cymraeg prifysgolion, Mudiad Meithrin, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill â diddordeb.

Trosolwg

Mae'r ddogfen dadansoddiad data hon yn cyd-fynd â 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg'. Mae'n darparu ystod o ddata ar y gweithlu addysg o nifer o ffynonellau. Defnyddiwyd y data hwn i lywio'r camau gweithredu yn y cynllun. Ein bwriad yw diweddarau'r dadansoddiad hwn ar adegau addas er mwyn defnyddio'r data diweddaraf wrth i ni fonitro a mireinio'r camau gweithredu yn y cynllun hirdymor hwn.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: athrawoncc.wmteachers@llyw.cymru



[@LIC_Addysg](#)



[Facebook/AddysgCymru](#)

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysg-a-sgiliau

Dogfennau cysylltiedig

'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg'

'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg'

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Nod 1: Cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg	2
Nod 2: Cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr	26
Nod 3: Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	29
Nod 4: Meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu	33

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â 'Chynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg'. Mae'n nodi rhai o'r data allweddol yr ydym wedi'u defnyddio i bennu'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun. Ein bwriad yw diweddarau'r dadansoddiad hwn ar adegau addas er mwyn defnyddio'r data diweddaraf wrth i ni fonitro a mireinio'r camau gweithredu yn y cynllun hirdymor.

Nod 1: Cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau hirdymor ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon fel a ganlyn.

Nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg			
Gwaelodlin 2015 i 2016	Targed 2021	Targed 2031	Targed 2050
2,900	3,100	3,900	5,200
Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc			
Gwaelodlin 2015 i 2016	Targed 2021	Targed 2031	Targed 2050
500	600	900	1,200
Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg			
Gwaelodlin 2015 i 2016	Targed 2021	Targed 2031	Targed 2050
1,800	2,200	3,200	4,200

Er mwyn rhagweld nifer yr athrawon y bydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2021, 2031 a 2050, defnyddir amcanestyniadau o ddisgyblion, targedau'r Llywodraeth ynghylch addysg Gymraeg, yn ogystal â chyfraddau disgybl:athro ar gyfer y blynyddoedd hynny ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd. Petai nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn aros yr un faint, a'r amcanestyniadau o ran disgyblion yn gostwng, yna byddai hynny'n cael effaith anochel ar y targed ar gyfer nifer yr athrawon. Felly, nid oes modd edrych ar y targedau ar gyfer nifer yr athrawon ar eu pennau eu hunain.

Y gobaith yw y bydd data Cyfrifiad 2021 ar gael yn hwyrach yn 2022. Bydd y data hyn ynghyd â'r data diweddaraf am amcanestyniadau ynghylch disgyblion yn cael eu ddefnyddio i ddiweddarau'r taflwybr ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, bydd rhagor o wybodaeth fanwl o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY ynghylch gallu'r gweithlu ysgolion yn y Gymraeg a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yng nghyd-destun yr ysgol yn cael ei hystyried wrth ddiweddarau targedau Cymraeg


2050. Wrth i'r wybodaeth gael ei chasglu ar lefel unigolion, bydd yn ei gwneud yn bosibl i ddadansoddi tueddiadau dros amser ynghyd â symudiadau staff i mewn ac allan o'r proffesiwn.

Gellir gweld y data diweddaraf a gyhoeddwyd ynghylch cynnydd yn erbyn targedau Cymraeg 2050, wedi'u seilio ar flwyddyn academaidd 2020 i 2021, yn Nhabl 1.1, isod. Mae'r data yn dangos:

- yn dilyn gostyngiad yn nifer yr athrawon cynradd yn 2019 i 2020, i'r nifer godi yn 2020 i 2021, ac erbyn hyn prinder bach o 7% (229) sydd yn nifer yr athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg yn erbyn targed 2021
- bod nifer yr athrawon uwchradd wedi cynyddu dros y 3 blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyfanswm nifer yr athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu'r Gymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod 14% (405) yn brin.

Bydd y cynllun hwn yn mynd â ni hyd at dargedau 2031. Felly, o ystyried bod y nifer yn erbyn targedau 2021 yn brin, bydd nifer yr athrawon ychwanegol y bydd eu hangen erbyn 2031 fel ag yr amlinellir yn nhabl 1.2 isod.

Tabl 1.1: Nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg¹



Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl (CYBLD)

¹ Ni chaiff athrawon cyflenwi eu cynnwys yn y tabl hwn. Ceir data am athrawon cyflenwi yn nhabl 1.12.

Tabl 1.2: Nifer yr athrawon y mae eu hangen i fodloni targedau 2031

Nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg			
Gwaelodlin 2020 i 2021 2,871	Targed 2031 3,900	Prinder o gymharu â'r targed 1,029	Nifer yr athrawon ychwanegol fesul blwyddyn yn fras 103
Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc			
Gwaelodlin 2020 i 2021 391	Targed 2031 900	Prinder o gymharu â'r targed 509	Nifer yr athrawon ychwanegol fesul blwyddyn yn fras 51
Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg			
Gwaelodlin 2020 i 2021 2,004	Targed 2031 3,200	Prinder o gymharu â'r targed 1,196	Nifer yr athrawon ychwanegol fesul blwyddyn yn fras 119

Ffynhonnell: CYBLD

Mae'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn cynhyrchu 2 nifer o ran faint o unigolion a ddymunir, un ar gyfer anghenion y sector cynradd a'r llall ar gyfer y sector uwchradd. Rhoddir y rhain i Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn yr hydref bob blwyddyn. Yna mae CGA yn pennu dyraniadau recriwtio ar lefel y rhaglen ar gyfer partneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) unigol ledled Cymru (ar wahân i'r Brifysgol Agored sy'n cynnig darpariaeth ran-amser a darpariaeth seiliedig ar gyflogaeth) ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Disgwylir y dylai partneriaethau AGA fod yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae o leiaf 30% o'r nifer a dderbynnir yn flynyddol yn paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r niferoedd a ddymunir ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023 i'w gweld yn nhabl 1.3 isod ac os bydd y partneriaethau AGA yn sicrhau bod 30% o'r myfyrwyr a dderbynnir yn flynyddol yn paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai fod cyflenwad digonol o athrawon ar gyfer y sector yn y dyfodol.

Tabl 1.3: Nifer yr athrawon newydd a ddymunir 2022 i 23

	Israddedigion	Graddedigion	Cyfanswm	30% yn gyfrwng Cymraeg
Cynradd	264	398	662	198
Uwchradd			948	284
Cyfanswm			1,610	482

Ffynhonnell: CGA

Mae'r data ar nifer y myfyrwyr ar gyrsiau AGA sy'n paratoi i addysgu yn y Gymraeg yn nhabl 1.4 isod yn dangos ein bod ar y llwybr cywir i allu cyrraedd y targed ar gyfer athrawon cynradd, os bydd nifer y myfyrwyr yn aros yn 145, y nifer yn 2019 i 2020, neu'n cynyddu ymhellach. Fodd bynnag, mae angen i'r nifer sy'n paratoi i addysgu mewn ysgolion uwchradd gynyddu'n sylweddol os ydym am gyrraedd y targedau. Mae angen inni ddyblu nifer y myfyrwyr sy'n paratoi i addysgu mewn ysgolion uwchradd er mwyn cyrraedd y targedau, ac nid yw hynny'n ystyried trosiant staff mewn ysgolion.

Tabl 1.4: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl lefel ysgol a blwyddyn²

	2015 i 2016	2016 i 2017	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020
Pawb	245	235	210	175	235
Ysgol Gynradd	150	145	110	95	145
Ysgol Uwchradd	95	90	100	75	90

Ffynhonnell: StatsCymru

Yn ogystal â chyrtsiau AGA llawn amser traddodiadol, ers 2020 i 2021 mae cyrsiau tystysgrif addysg i raddedigion (TAR) newydd rhan-amser a chyflogedig ar gyfer addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'u darparu gan y Brifysgol Agored. Mae tabl

² StatsCymru

1.5 yn dangos nifer y cofrestriadau ar gyfer y TAR rhan-amser a thabl 1.6 nifer y cofrestriadau ar gyfer y TAR Cyflogedig. Mae lle i gynyddu nifer y cofrestriadau ar y ddau lwybr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

Tabl 1.5: Cofrestriadau ar gyfer y TAR rhan-amser

	2020 i 2021	2021 i 2022
Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg cynradd	*	5
Cofrestriadau cyfrwng Saesneg cynradd	40	45
Cyfanswm y cofrestriadau cynradd	45	50
Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg uwchradd	5	*
Cofrestriadau cyfrwng Saesneg uwchradd	5	20
Cyfanswm y cofrestriadau uwchradd	10	20
Cyfanswm y cofrestriadau rhan-amser	55	70

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cynrychiolir 1, 2 gan *. Mae pob rhif arall wedi'i dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Tabl 1.6: Recriwtio ar gyfer y TAR Cyflogedig

	2020 i 2021	2021 i 2022
Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg cynradd	5	20
Cofrestriadau cyfrwng Saesneg cynradd	45	45
Cyfanswm y cofrestriadau cynradd	55	65
Cofrestriadau cyfrwng Cymraeg uwchradd	15	5
Cofrestriadau cyfrwng Saesneg uwchradd	15	20
Cyfanswm y cofrestriadau uwchradd	30	30
Cyfanswm y cofrestriadau Cyflogedig	85	90

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cynrychiolir 1, 2 gan *. Mae pob rhif arall wedi'i dalgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf.

Yn ystod y 2 flynedd gyntaf i'r cwrs fod ar waith, ac er gwaethaf y pandemig, cynigiwyd cyfle i 180³ o unigolion i wella'u sgiliau a gweithio tuag at yrfa addysgu yn y dyfodol drwy'r TAR Cyflogedig.

Fel yr amlinellir yn y cynllun, nid yw'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon yn mynd i lawr i lefel pwnc unigol na'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, er mwyn deall yn well y galw am athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg mewn meysydd pwnc allweddol, rydym wedi edrych ar ddata hanesyddol ar gyfer cofrestriadau AGA (tabl 1.7) a nifer y swyddi mewn ysgolion Cymraeg a hysbysebwyd yn ôl pwnc (tabl 1.8).

Tabl 1.7: Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl pwnc a blwyddyn

	2015 i 2016	2016 i 2017	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020
Pawb	95	90	100	75	90
Gwyddoniaeth gyffredinol	0	0	0	0	0
Bioleg	5	5	5	0	0
Cemeg	5	5	5	0	5
Ffiseg	5	0	0	5	0
Mathemateg	5	5	5	5	5
Dylunio a thechnoleg	5	0	10	5	0
Technoleg gwybodaeth	5	0	0	0	0
Celf	0	0	0	5	0
Busnes	0	0	0	0	0
Drama	0	5	0	0	5
Saesneg	0	0	5	5	5
Daeryddiaeth	5	5	5	0	5
Hanes	5	5	5	10	10
Ieithoedd tramor modern	10	15	15	10	20

³ Wedi'u talgrynnu i'r lluosrif o 5 agosaf

Cerddoriaeth	0	0	5	5	0
Addysg gorfforol	15	10	10	10	10
Addysg grefyddol	0	0	0	0	0
Y Gymraeg	25	35	25	15	20

Ffynhonnell: StatsCymru

Tabl 1.8: Nifer y swyddi cyfrwng Cymraeg a hysbysebwyd yn ôl pwnc a blwyddyn

	Ion-Rhag 2016	Ion-Rhag 2017	Ion-Rhag 2018	Ion-Rhag 2019	Ion-Rhag 2020
Cyfanswm	454	438	421	395	322
Cynradd	293	270	260	227	138
Uwchradd	161	168	161	168	184
Celf	2	3	8	7	4
Bioleg	8	5	2	1	3
Cemeg	10	2	2	1	3
Dylunio a thechnoleg	6	11	3	3	10
Saesneg	14	11	14	8	9
Daearyddiaeth	7	3	5	7	7
Hanes	9	6	9	5	7
Technoleg gwybodaeth	6	5		4	3
Mathemateg	13	23	20	28	19
Ieithoedd tramor modern	8	6	2	1	6
Cerddoriaeth	2	13	9	8	2
Addysg gorfforol	7	5	8	13	9
Ffiseg	3	1	1	5	1
Addysg grefyddol	5	6	4	6	4
Gwyddoniaeth	9	13	20	9	17
Cymraeg iaith gyntaf	18	18	13	11	27
Cymraeg ail iaith	8	11	14	11	14

Cydgysylltydd AAA	5	2	1		2
Pwnc arall	21	24	26	40	37

Ffynhonnell: StatsCymru

Mae'n amlwg o'r data yn nhablau 1.7 ac 1.8 nad oes digon o athrawon newydd yn cymhwyso i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i lenwi'r swyddi gwag mewn rhai pynciau, er enghraifft mathemateg, Cymraeg, dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth. Y ffactor arall i'w ystyried yw y gallai lleoliad daearyddol y swyddi a'r athrawon cymwysedig fod yn wahanol.

Yn ogystal â'r rhai a enillodd statws athro cymwysedig (SAC) yng Nghymru, mae nifer o fyfyrwyr o Gymru yn hyfforddi i addysgu ym mhrifysgolion Lloegr. Mae data CGA yn nhablau 1.9a ac 1.9b yn dangos faint o athrawon newydd gymhwyso sydd wedi hyfforddi yn Lloegr ac wedi cofrestru wedyn gyda CGA yn ôl y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfnod cyflogaeth. Mae tabl 1.10 yn cynnwys nifer yr athrawon newydd gymhwyso hynny sydd wedi'u hyfforddi yn Lloegr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dros gyfnod o 5 mlynedd, dychwelodd 38 o athrawon newydd gymhwyso i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o gyfanswm o 100 sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid cymryd camau felly i gefnogi'r rhai a hyfforddodd yn Lloegr i ddychwelyd i Gymru er mwyn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.9a: Nifer yr athrawon newydd gymhwyso a hyfforddwyd yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg

Gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg	2017	2018	2019	2020	2021
Oes	16	13	16	27	28
Nac oes	192	209	246	260	271
Cyfanswm	208	222	262	287	299

Ffynhonnell: CGA

Tabl 1.9b: Nifer yr athrawon newydd gymhwyso a hyfforddwyd yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl cyfnod a gallu yn y Gymraeg

Cyfnod cyflogaeth a gallu yn y Gymraeg	2017	2018	2019	2020	2021
Cynradd	8	1	2	12	10
Canol	0	1	0	0	0
Uwchradd	2	5	4	3	7
Arbennig	0	0	0	0	1
Uned cyfeirio disgyblion	0	0	0	0	0
Cyflenwi	3	3	7	5	8
Eraill mewn/allan o wasanaeth	3	3	3	7	2
Cyfanswm	16	13	16	27	28

Ffynhonnell: CGA

Tabl 1.10: Nifer yr athrawon newydd gymhwyso a hyfforddwyd yn Lloegr sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl cyfrwng yr ysgol

	2017	2018	2019	2020	2021
Cymraeg	4	6	6	6	16
Saesneg	92	95	117	107	105
Anhysbys	112	121	139	174	178
Cyfanswm	208	222	262	287	299

Ffynhonnell: CGA

At hynny, mae nifer o athrawon yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd â'r gallu i addysgu yn Gymraeg. Er bod angen inni hefyd gynyddu nifer yr athrawon Cymraeg eu hiaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, efallai y bydd cyfleoedd i ystyried

cydweithio agosach rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, yn enwedig mewn meysydd pwnc lle mae prinderau allweddol.

Mae Tabl 1.11 yn cynnwys data ar nifer yr athrawon (nifer yr unigolion a nifer cyfwerth â pherson llawn (FPE)⁴) sydd â sgiliau Cymraeg canolradd, uwch neu hyfedr sy'n addysgu pynciau i grwpiau blwyddyn 7 i 14 mewn ysgolion canol ac uwchradd cyfrwng Saesneg. Mae rhai pynciau gwerth eu nodi (er enghraifft mathemateg, dylunio a thechnoleg, Saesneg a gwyddoniaeth) lle y gallai cydweithio agosach rhwng sectorau ddarparu cyfleoedd i athrawon ennill hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl 1.11: Nifer yr athrawon (nifer yr unigolion a nifer FPE) â sgiliau Cymraeg ar lefel canolradd neu uwch yn dysgu blynyddoedd 7 i 14 mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fesul pwnc, Tachwedd 2020

Pwnc	Nifer yr unigolion	FPE
Celf	50	30
Bioleg	35	15
Astudiaethau busnes	25	10
Cemeg	30	15
Dylunio a thechnoleg	100	55
Drama/theatr	45	15
Peirianeg	10	*
Saesneg	170	110
Daearyddiaeth	50	25
Hanes	80	50
TGCh	70	30
Mathemateg	125	100

⁴ FPE yw'r gyfran o gyfanswm yr amser addysgu a dreulir yn addysgu pwnc penodol. Os bydd athrawon yn treulio hanner eu hamser addysgu yn addysgu Pwnc X a hanner eu hamser yn addysgu Pwnc Y, byddent yn cael eu cofnodi fel rhai sydd â FPE o 0.5 yn erbyn y naill bwnc a'r llall. Mae FPE o 10 yn erbyn pwnc penodol yn cyfateb i 10 o athrawon sy'n treulio eu holl amser addysgu yn addysgu'r pwnc hwnnw. Bydd cyfanswm FPE person bob amser yn cyfateb i un (ni waeth faint o wahanol bynciau y maent yn eu haddysgu), felly mae cyfanswm yr FPE yn cyfateb i gyfanswm nifer yr athrawon sy'n addysgu

leithoedd tramor modern	100	65
Cerddoriaeth	60	35
Addysg bersonol a chymdeithasol	150	15
Addysg gorfforol	140	90
Ffiseg	25	5
Addysg grefyddol	110	50
Gwyddoniaeth	125	80
Y gwyddorau cymdeithasol	35	15
Pwnc galwedigaethol	85	25
Bagloriaeth Cymru	180	40
Y Gymraeg	625	495
Dyniaethau eraill	45	15
Pynciau eraill	210	45
Cyfanswm pynciau	1,425	1,425

Ffynhonnell: CBGY

Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

* Lle bo'r nifer yn llai na 5, ni ddangoswyd y nifer.

Yn ogystal â nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y'u cofnodir yn CYBLD bob blwyddyn (Tabl 1.1), mae yna weithlu cyflenwi hefyd sy'n galluogi ysgolion i ddarparu gwersi neu gymorth ychwanegol mewn ysgolion. Yn ôl data CGA, yn 2021 roedd yna 4.222 o athrawon cyflenwi yng Nghymru. Efallai bod rhai o'r rhain wedi'u cyfrif yn nata CYBLD gan y byddent wedi bod mewn ysgolion ar ddyddiad y cyfrifiad, ac efallai bod eraill yn gweithio fel cynorthwyr addysgu. Serch hynny, mae'n dal i fod yn bwysig rhoi sylw i'r garfan hon o'r gweithlu yn ein gwaith cynllunio, gan fod y galw am staff cyflenwi wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae dros hanner athrawon cyflenwi wedi'u hyfforddi yn y sector cynradd (55.1%), ac mae tua 20% o athrawon cyflenwi yn gallu addysgu drwy'r Gymraeg yn 2021, fel y'i hamlinellir yn nhabl 1.12.

Tabl 1.12: Nifer yr athrawon cyflenwi sydd wedi'u cofrestru gyda CGA sydd â'r gallu i addysgu yn y Gymraeg

Gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg	2017	2018	2019	2020	2021
Ydy	1,194	1,144	1,023	1,015	869
Nac ydy	3,443	3,470	3,736	3,605	3,336
Anhysbys	150	79	0	15	17
Cyfanswm	4,787	4,693	4,759	4,635	4,222

Ffynhonnell: CGA

Gan fod athrawon cyflenwi'n cael eu dosbarthu i ysgolion gan asiantaethau neu byllau cyflenwi awdurdodau lleol lle bynnag y mae eu hangen, yn hytrach na chael eu cyflogi gan ysgol benodol, nid yw'n bosibl cofnodi'r cam y maent yn gweithio ynddo gan y gall fod yn amrywiol. Fodd bynnag, o edrych ar y data ar gyfer y cam y mae'r athrawon cyflenwi wedi hyfforddi ar ei gyfer yn nhabl 1.13, mae'n glir nad yw nifer yr athrawon sydd ar gael yn ddigonol i gyrraedd targedau nifer athrawon Cymraeg 2031 gan ganiatáu gweithlu digonol ar yr un pryd i gynnig darpariaeth ychwanegol i ysgolion.

Tabl 1.13: Athrawon cyflenwi yn ôl eu gallu i addysgu yn y Gymraeg ac yn ôl hyfforddiant o fewn sector penodol

	Gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg							
	Ydyn		Nac ydyn		Anhysbys		Cyfanswm	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Hyfforddiant cynradd	488	21.0%	1,828	78.6%	9	0.4%	2,325	100.0%
Hyfforddiant uwchradd	233	16.0%	1,219	83.6%	6	0.4%	1,458	100.0%
Anhysbys	148	33.7%	289	65.8%	2	0.5%	439	100.0%
Cyfanswm	869	20.6%	3,336	79.0%	17	0.4%	4,222	100.0%

Ffynhonnell: CGA

Ystyriaeth arall wrth nodi faint o athrawon newydd sydd eu hangen yn flynyddol yw nifer yr athrawon sy'n aros yn y proffesiwn. Mae data yn nhablau 1.14a ac 1.14b sy'n olrhain athrawon cofrestredig dros gyfnod o 5 mlynedd a 10 mlynedd yn dangos:

- o'r rhai a enillodd statws athro cymwysedig yn 2016 i 17, aeth tua 81% ymlaen i gofrestru gyda CGA
- o'r athrawon newydd gymhwysu a hyfforddwyd yng Nghymru a aeth ymlaen i gofrestru gyda CGA i weithio neu i fod yn gymwys i weithio yng Nghymru, roedd tua 85% wedi'u cofrestru i addysgu yn 2021
- dros yr un cyfnod, mae nifer yr athrawon sy'n parhau i weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn parhau'n gymharol sefydlog
- dros gyfnod o bum mlynedd, o garfan 2016 i 2017, roedd gostyngiad o 9% yn nifer y rheini a oedd yn dal wedi'u cofrestru yn 2021 a oedd yn gallu siarad Cymraeg, a thua 5% o ostyngiad yn nifer yr athrawon a oedd yn gallu addysgu yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae cyfran yr athrawon newydd gymhwysu ac athrawon ysgol cofrestredig sy'n siarad Cymraeg wedi parhau'n sefydlog o un flwyddyn i'r llall yn ystod y cyfnod hwnnw, a hefyd dros gyfnod o 10 mlynedd. O'r rheini a enillodd statws athro cymwysedig yn 2016/17 ac a gofrestrodd yn 2018, roedd 37% yn gallu siarad Cymraeg, ac yn 2021 cynyddodd hyn i 40%. Yn 2018, roedd 28% yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a chynyddodd hyn hefyd i 31% yn 2021
- dros gyfnod o 10 mlynedd roedd 71% o athrawon yn parhau i fod wedi'u cofrestru gyda CGA
- dros gyfnod o 10 mlynedd, o garfan 2011 i 2012, roedd gostyngiad o 24% yn nifer y rheini a oedd yn dal wedi'u cofrestru yn 2021 a oedd yn gallu siarad Cymraeg, a thua 20% o ostyngiad yn y nifer a oedd yn gallu addysgu yn y Gymraeg. O'r rheini a enillodd statws athro cymwysedig yn 2011 i 2012, o ran cyfran, parhaodd y gallu a nodir uchod i siarad Cymraeg yn sefydlog ymhlith y rheini a gofrestrodd gyda CGA yn 2013 a 2021. Yn 2013, roedd 35% yn gallu siarad Cymraeg, ac yn 2021 cynyddodd hyn i 37%. Yn 2013, roedd 28% yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a chynyddodd hyn hefyd i 31% yn 2021.

Tabl 1.14a: Nifer yr athrawon y dyfernir statws athro cymwysedig iddynt ac sy'n parhau i fod wedi'u cofrestru â CGA dros gyfnod o 5 mlynedd

	AGA Cymru 2016 i 2017		Y Gymraeg		Cyfrwng yr ysgol	
	Nifer	%	Yn gallu siarad Cymraeg	Yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg	Ysgol cyfrwng Cymraeg	Ysgol cyfrwng Saesneg
Nifer y myfyrwyr a gafodd statws athro cymwysedig	1,060		Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer blwyddyn gofrestru 2017 i 2018/wedi ymuno â'r proffesiwn*	859	81.0%	317	239	152	292
Wedi'u cofrestru ym Mawrth 2021	727	84.6%	289	226	160	421

Ffynhonnell: CGA

Mae CGA yn edrych ar ran o'r Gofrestr o Ymarferwyr Addysg ar 1 Mawrth bob blwyddyn.

Dim ond ar gyfer y rhai y dyfernir statws athro cymwysedig iddynt ac a gofrestrodd wedyn gyda CGA y cadwyd manylion ynghylch eu gallu yn y Gymraeg.

Tabl 1.14b: Nifer yr athrawon y dyfernir statws athro cymwysedig iddynt ac sy'n parhau i fod wedi'u cofrestru â CGA dros gyfnod o 10 mlynedd

	AGA Cymru 2011 i 2012		Y Gymraeg		Cyfrwng yr ysgol	
	Nifer	%	Yn gallu siarad Cymraeg	Yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg	Ysgol cyfrwng Cymraeg	Ysgol cyfrwng Saesneg
Nifer y myfyrwyr a gafodd statws athro cymwysedig	1,560		Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Wedi'u cofrestru gyda CGA ar gyfer blwyddyn gofrestru 2012 i 2013/wedi ymuno â'r proffesiwn	1,160	74.4%	408	322	Amherthnasol	Amherthnasol
Wedi'u cofrestru ym Mawrth 2021	829	71.5%	310	253	182	500

Ffynhonnell: CGA

Mae CGA yn edrych ar ran o'r Gofrestr o Ymarferwyr Addysg ar 1 Mawrth bob blwyddyn.

Dim ond ar gyfer y rhai y dyfernir statws athro cymwysedig iddynt ac a gofrestrodd wedyn gyda CGA y cadwyd manylion ynghylch eu gallu yn y Gymraeg.

Nid oes gwybodaeth am ysgolion penodol ar gael ar gyfer 2013, felly ni allwn nodi dadansoddiad yn ôl cyfrwng yr ysgol yn 2013.

Os bydd tua 1 o bob 5 o'r rhai sy'n gallu addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gadael y proffesiwn dros gyfnod o 10 mlynedd, yna bydd angen i ni roi cyfrif am y gostyngiad hwn wrth fynd ati i flaengynllunio.

Mae'r CBGY yn caniatáu inni ddefnyddio setiau dilynol o ddata sy'n edrych ar nifer yr athrawon sy'n gadael eu swyddi rhwng un flwyddyn a'r llall. Mae tabl 1.15a yn dangos cyfanswm nifer yr athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2019 a 2020, ac mae tabl 1.15b yn dangos y rheini sydd wedi gadael ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2019 a 2020. Mae'r tabl yn nodi p'un a ydynt wedi gadael y proffesiwn; wedi symud i rôl nad yw'n ymwneud ag addysgu, (er enghraifft

arweinyddiaeth), wedi symud i ysgol ganol neu i ysgol cyfrwng Saesneg. Yn gyffredinol, mae tua 6% (470) o athrawon cynradd ac uwchradd wedi gadael y proffesiwn, ac mae 4% arall wedi symud i ysgolion neu rolau o fewn y system.

Tabl 1.15a: Athrawon dosbarth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg (a, b)

Blwyddyn	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm
2019	2,685	2,250	4,935
2020	2,750	2,270	5,020

Ffynhonnell: CBGY

Tabl 1.15b: Athrawon dosbarth sydd wedi gadael rôl addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg rhwng 2019 a 2020 (a, b)

Categori o athrawon a adawodd	Cynradd		Uwchradd		Cyfanswm	
	Nifer	Cyfran o athrawon	Nifer	Cyfran o athrawon	Nifer	Cyfran o athrawon
Cyfanswm nifer yr athrawon a adawodd (c)	235	8.7%	235	10.5%	470	9.5%
(o gyfanswm nifer yr athrawon a adawodd (ch))						
Y nifer a adawodd y proffesiwn (d)	170	6.3%	130	5.7%	295	6.0%
Y nifer a symudodd i rôl nad yw'n ymwneud ag addysgu	50	1.9%	30	1.4%	80	1.7%
Y nifer a symudodd i ysgol ganol	5	0.2%	65	2.8%	70	1.4%
Y nifer a symudodd i ysgol cyfrwng Saesneg	10	0.4%	15	0.7%	25	0.5%

Ffynhonnell: CBGY

Mae nifer yr athrawon wedi'u thalgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Nodiadau:

(a) Mae'r athrawon yn cynnwys penaethiaid cynorthwyol, ymarferwyr arweiniol, athrawon cymwysedig, athrawon nad ydynt wedi cymhwyso ac athrawon eraill.

(b) Mae 'cyfrwng Cymraeg' yn cynnwys darpariaeth dwy ffrwd, darpariaeth drosiannol a darpariaeth ddwyieithog.

(c) Yn cynnwys athrawon a gofnodwyd mewn ysgol gynradd/uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2019, ond na chofnodwyd yn yr un rôl/sector/cyfrwng ysgol yn 2020.

(ch) Gellir cofnodi yr un unigolyn o dan fwy nag un o'r categorïau canlynol (hy gallai athro symud i ysgol cyfrwng Saesneg fel dirprwy bennaeth. Byddai'r unigolyn hwn yn cael ei gofnodi o dan 'symud i rôl nad yw'n ymwneud ag addysgu' ac o dan 'symud i ysgol cyfrwng Saesneg'.

(d) Yn cynnwys athrawon a gofnodwyd yn 2019 ond nid yn 2020 (beth bynnag eu rôl, eu sector neu gyfrwng eu hysgol).

O edrych ar y data ar sail ranbarthol, mae tabl 1.16 yn dangos yr athrawon sydd wedi gadael y proffesiwn yn ôl sector a rhanbarth. Yn y de-ddwyrain yr oedd y gyfran uchaf wedi gadael, ac yn y gogledd, y de-orllewin a'r canolbarth yr oedd y nifer uchaf wedi gadael.

Tabl 1.16: Athrawon dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi gadael y proffesiwn rhwng 2019 a 2020 yn ôl sector a rhanbarth (a, b, c)

Rhanbarth	Cynradd		Uwchradd		Cyfanswm	
	Nifer	Cyfran o athrawon	Nifer	Cyfran o athrawon	Nifer	Cyfran o athrawon
Y Gogledd	65	7.2%	50	5.9%	120	6.6%
Y De-orllewin a'r Canolbarth	55	5.6%	45	5.5%	100	5.6%
Canol De Cymru	30	5.1%	20	5.2%	45	5.2%
Y De-ddwyrain	15	8.0%	15	6.6%	30	7.3%
Cymru	170	6.3%	130	5.7%	295	6.0%

Ffynhonnell: CBGY

Mae nifer yr athrawon wedi'i thalgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'r canrannau'n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Nodiadau:

- (a) Mae'r athrawon yn cynnwys penaethiaid cynorthwyol, ymarferwyr arweiniol, athrawon cymwysedig, athrawon nad ydynt wedi cymhwyso ac athrawon eraill.
- (b) Yn cynnwys unigolion a gofnodwyd mewn casgliad CBGY 2019, ond nid casgliad CBGY 2020.
- (c) Mae 'cyfrwng Cymraeg' yn cynnwys darpariaeth dwy ffrwd, darpariaeth drosiannol a darpariaeth ddwyieithog.

Wrth inni gasglu mwy o ddata blynyddol drwy gasgliad CBGY, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall yn well y patrwm o ran y nifer sy'n gadael ac yn symud i ysgolion eraill dros amser.

Mae'r cynllun pontio i roi cymorth i athrawon â statws athro cymwysedig sydd wedi cymhwyso i addysgu yn y sector cynradd wedi cael ei threialu dros 2 flynedd academaidd. Cymerodd 10 ran yn 2020 i 2021 a 14 arall yn 2021 i 2022. Hyd yma, mae 9 o'r garfan gyntaf wedi sicrhau swyddi mewn ysgolion uwchradd mewn amrywiaeth o bynciau gan gynnwys Mathemateg, Saesneg, Dylunio a Thechnoleg a Gwyddoniaeth. Mae'r 14 sy'n cymryd rhan yn 2021 i 2022 hefyd yn cael eu cefnogi i addysgu mewn amrywiaeth o bynciau â blaenoriaeth, gyda 6 yn addysgu Cymraeg a'r lleill yn addysgu gwyddoniaeth, mathemateg, Saesneg a dylunio a thechnoleg.

I grynhoi, os ydym am gyrraedd targedau Cymraeg 2050, gan ystyried y data a'r ymyriadau cyfredol, byddai'r niferoedd a ragwelir fel a ganlyn.

Tabl 1.17: Nifer yr athrawon ychwanegol a gafodd eu hyfforddi bob blwyddyn yn fras

Sector	Nifer yr athrawon ychwanegol sy'n ofynnol bob blwyddyn yn fras, ar sail targedau Cymraeg 2050	Camau i hyfforddi neu gynyddu nifer yr athrawon				Cyfanswm nifer yr athrawon a hyfforddwyd yng Nghymru neu gapasiti ychwanegol drwy ddulliau eraill
		Hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg drwy bartneriaethau AGA 2019 i 2020	Hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg drwy lwybrau amgen 2020 i 2021	Hyfforddi yn Lloegr, dod yn ôl i addysgu yn y Gymraeg 2021	Nifer ar y cynllun pontio 2021 i 2022	
Cynradd	103	145	25	10		180
Uwchradd	170	90	5	7	14	116

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gan ystyried nifer yr athrawon sy'n ofynnol er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050, y nifer yn fras a dderbynnir drwy AGA neu ddulliau eraill, y nifer sy'n gadael a'r stoc o athrawon newydd sydd ei angen ar hyn o bryd yn ôl y Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon, rhagwelir bod angen 273 o athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg newydd a 300 o athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd bob blwyddyn drwy AGA neu ddulliau eraill (er enghraifft o Loegr), fel yr amlinellir yn nhabl 1.18.

Tabl 1.18: Nifer yr athrawon sy'n ofynnol bob blwyddyn yn fras

	A	B	C	Ch	D	Dd
Sector	Nifer yr athrawon ychwanegol sy'n ofynnol bob blwyddyn yn fras, ar sail targedau Cymraeg 2050	Cyfanswm nifer yr athrawon a hyfforddwyd yn fras neu gapasiti ychwanegol	Y nifer sy'n gadael	Yr athrawon ychwanegol sy'n ofynnol bob blwyddyn er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050 uwchlaw'r nifer sy'n dod drwy AGA neu ddulliau eraill ar hyn o bryd (B-C-A)	Nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg y rhagwelir a ddaw drwy AGA bob blwyddyn ar hyn o bryd	Yr athrawon cyfrwng Cymraeg sy'n ofynnol bob blwyddyn (B + Ch)
Cynradd	103	180	170	93	198	273
Uwchradd	170	116	130	184	284	300

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'n glir mai yn y sector uwchradd y mae'r her, lle mae angen 184 o athrawon ychwanegol uwchlaw'r nifer sy'n dod drwy AGA ar hyn o bryd a'r dulliau recriwtio eraill. Fodd bynnag, os cyrhaeddir y nifer o fyfyrwyr AGA a ragwelir (30%), yna dim ond o tua 16 athro y flwyddyn y byddem yn brin. Yn y sector cynradd, byddai angen cynyddu'r nifer y rhagwelir eu derbyn drwy AGA ar hyn o bryd er mwyn diwallu'r angen am 93 o athrawon ychwanegol uwchlaw'r rheini sydd eisoes wedi'u hyfforddi. Mae targedau Cymraeg 2050 o ran nifer athrawon yn seiliedig ar y twf a ragwelir yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mae pob awdurdod lleol wedi pennu targedau ar gyfer y twf hwn yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Os na chyrhaeddir targedau'r awdurdodau lleol, byddai'r angen am athrawon ychwanegol yn amrywio.

Fel yr amlinellir yn y cynllun, ni allwn ganolbwyntio ar gynyddu AGA yn unig er mwyn sicrhau cyflenwad o athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae angen i ni sicrhau bod digon o ddysgwyr yn symud ymlaen drwy addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel TGAU, Safon Uwch ac fel israddedigion. Mae CSCA yr awdurdodau lleol yn allweddol o ran cefnogi'r cynnydd mewn TGAU a Safon Uwch tra

bo'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gyfrifol am gynyddu nifer y myfyrwyr prifysgol sy'n astudio rhan neu'r cwbl o'u graddau drwy gyfrwng y Gymraeg.

I ddangos hyn, rydym wedi edrych ar gynnydd mewn 4 pwnc, sef Cymraeg, mathemateg, TGCh ac ieithoedd tramor modern. Mae tabl 1.19 yn rhoi syniad o sut y gall myfyrwyr sy'n astudio Cymraeg neu bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg symud ymlaen trwy TGAU, i Safon Uwch ac ymlaen i bynciau gradd. Er bod y data a gyflwynir yn y tabl hwn yn dilyn dull llwybr nodweddiadol o TGAU i Safon Uwch i radd, nid yw wedi'i gysylltu ar lefel myfyriwr ac felly nid yw o reidrwydd yn cynrychioli'r un myfyrwyr yn symud trwy bob lefel. Gall rhai myfyrwyr adael neu ymuno ag ysgolion Cymraeg neu gymryd cyfnodau gwahanol o amser i symud i lefel gradd. Yn ogystal, cyfrifir nifer myfyrwyr gradd gyntaf ar sail nifer y cofrestriadau yn hytrach na nifer y myfyrwyr unigol. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau o'r data hwn. Mae'r ffigurau gradd cymwysedig yn seiliedig ar nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru sy'n astudio unrhyw gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg gyda darparwr addysg uwch yng Nghymru. Nid yw'n rhoi syniad o fyfyrwyr sydd â sgiliau Cymraeg yn astudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg neu'r rhai sy'n astudio yng ngwledydd eraill y DU. Serch hynny, mae'r ffigurau yn dangos bod nifer isel o fyfyrwyr yn sefyll arholiadau neu'n ennill gradd yn y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefelau uwch.

Mae'r dull a ddefnyddir i gyfrifo addysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y rhai sydd wedi ennill gradd gyntaf yn y Gymraeg yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir yn y bwletin [Yr iaith Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch](#). Mae'r dadansoddiad hwn yn edrych ar a oedd myfyriwr sydd wedi cymhwyso wedi astudio unrhyw ran o'i radd trwy gyfrwng y Gymraeg. edd myfyriwr Defnyddiwyd hyn, ynghyd â'r pynciau y gwnaethant ennill eu cymhwyster ynddynt, i gyfrifo'r swm FPE ar gyfer pob lefel o addysgu Cymraeg ar gyfer pob pwnc.

Tabl 1.19: Nifer y myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU neu Safon Uwch yn y Gymraeg fel pwnc neu bynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg a myfyrwyr sydd wedi ennill gradd gyntaf yn y Gymraeg fel pwnc neu bynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg

	TGAU 2012 i 2013	Safon Uwch 2014 i 2015	Graddio â gradd 2017 i 2018 (2018 i 2019 ar gyfer ieithoedd tramor modern)
Cymraeg	5,580 (iaith gyntaf) 10,024 (ail iaith)	299 (iaith gyntaf) 316 (ail iaith)	75
Mathemateg	4,501	357	10
TGCh/cyfrifiadureg	456	66	5
Ieithoedd tramor modern	1,148	81	5

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Dysgwyr TGAU yw'r rheini a oedd yn 15 oed y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

Dysgwyr Safon Uwch yw'r rheini a oedd yn 17 oed y diwrnod cyn dechrau'r flwyddyn academaidd.

Caiff data TGAU a Safon Uwch eu casglu yn unig ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu cymeradwyo gan Llywodraeth Cymru i'w defnyddio mewn ysgolion. Mae ysgolion annibynnol yn cael dewis cymwysterau eraill sydd heb eu cymeradwyo. Nid yw'r rheini wedi'u cynnwys yn y ffigurau.

Mewn rhai achosion, roedd disgyblion wedi sefyll arholiad ar gyfer mwy nag un iaith dramor fodern ac felly byddai'n ymddangos ddwywaith yn y data.

Mae'r rhai sy'n cyflawni gradd gyntaf yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r swm FPE ar gyfer cofrestradau ac yn cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf.

Mae'r rhai sy'n cyflawni gradd gyntaf yn seiliedig ar fyfyrwyr:

- sydd wedi'u cyfrif o fewn y boblogaeth cymwysterau a enillwyd
- sy'n cymhwyso ar lefel gradd gyntaf

- sy'n astudio gyda darparwr addysg uwch yng Nghymru neu fyfyrwr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yn y Brifysgol Agored
- sy'n hanu o Gymru.

Cymerwyd data cymwysterau gradd gyntaf ar gyfer cyrsiau Cymraeg, gwyddorau mathemategol a chyfrifiadureg o 2017 i 2018. Ar gyfer ieithoedd tramor modern, cymerwyd y rhain o 2018 i 2019 gan fod cyrsiau ieithoedd tramor modern yn gyrsiau 4 blynedd.

Nod 2: Cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr

Fel y nodwyd yn y cynllun, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wynebu heriau penodol o ran recriwtio ymarferwyr sy'n gallu cefnogi dysgwyr. Mae gweithwyr cymorth dysgu ac ymarferwyr sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhan allweddol o weithlu ysgolion.

Fel y dangosir yn nhabl 2.1 isod, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae'r data'n dangos ei bod yn bosibl bod gweithwyr cymorth dysgu, nad oes ganddynt sgiliau yn y Gymraeg, yn cael eu cyflogi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae tabl 2.1 yn nodi bod 3,265 o weithwyr cymorth dysgu cynradd yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gyda 2,950 ohonynt â sgiliau yn y Gymraeg ar lefel canolradd neu uwch a 240 â sgiliau lefel sylfaen neu yn is. Mae hyn yn awgrymu nad oes digon o weithwyr cymorth dysgu sydd â sgiliau iaith Gymraeg i lenwi rolau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, heb sôn am ddigon i allu cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Tabl 2.1: Nifer y gweithwyr cymorth dysgu yn ôl cyfrwng ysgol, rôl a'u gallu i siarad Cymraeg, Tachwedd 2020

Cyfrwng ysgol	Rôl	Gallu yn y Gymraeg							
		Dim sgiliau	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedredd	Heb eu casglu	Cyfanswm
Cymraeg (a)	Cynorthwydd addysgu lefel uwch	*	5	10	15	65	225	5	330
	Cynorthwydd addysgu	35	75	60	155	545	1,610	50	2,525
	Cynorthwydd AAA	15	20	20	35	100	200	20	410
	Cyfanswm	45	105	90	205	705	2,035	75	3,265
Dwyieithog	Cynorthwydd addysgu lefel uwch	5	5	*	5	20	30	*	65
	Cynorthwydd addysgu	40	45	25	50	75	135	10	380

	Cynorthwydd AAA	10	20	10	10	40	95		185
	Cyfanswm	55	65	40	65	130	260	15	630
Saesneg	Cynorthwydd addysgu lefel uwch	225	620	245	75	30	35	30	1,265
	Cynorthwydd addysgu	3,030	4,930	1,480	300	160	210	210	10,325
	Cynorthwydd AAA	750	665	190	40	20	35	60	1,760
	Cyfanswm	4,005	6,215	1,920	415	210	280	300	13,355
Amherthnasol (b)	Cynorthwydd addysgu lefel uwch	65	40	15	5	10	25	10	170
	Cynorthwydd addysgu	490	355	105	45	45	90	120	1,250
	Cynorthwydd AAA	470	310	75	15	15	55	30	970
	Cyfanswm	1,025	705	195	70	70	170	160	2,390
Cyfanswm ysgolion	Cynorthwydd addysgu lefel uwch	300	670	275	100	120	315	45	1,830
	Cynorthwydd addysgu	3,590	5,405	1,675	555	820	2,045	390	14,480
	Cynorthwydd AAA	1,245	1,015	290	100	175	380	115	3,325
	Cyfanswm	5,130	7,095	2,240	760	1,120	2,745	550	19,640

Ffynhonnell: CBGY

Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5, ni ddangoswyd y nifer (*).

(a) Yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd a throsiannol.

(b) Cyfrwng yr ysgol yn amherthnasol i feithrinfeydd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

Mae data ar nifer y cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (tabl 2.2) sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn awgrymu bod nifer ddigonol â gallu yn y Gymraeg, gyda 455 o unigolion yn gweithio mewn cyfanswm o 440 ysgol cyfrwng Cymraeg, ddwyieithog, dwy ffrwd a throsiannol.

Mae'r rhan fwyaf o'r cydlynwyr anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion yn ymgymryd â'r rôl hon yn ogystal â'u prif rôl fel pennaeth, athro dosbarth, gweithiwr cymorth dysgu neu staff cymorth AAA. Ym mis Tachwedd 2020, o'r 1,580 o gydlynwyr anghenion addysgol arbennig a nodwyd mewn ysgolion, dywedodd 150 mai'r Cydlynnydd AAA oedd eu prif rôl. Felly, mae tabl 2.2 isod yn cynnwys rhai unigolion sydd hefyd yn cael eu cyfrif yn rhifau'r athrawon a gyflwynir yn nhablau 2.1, 3.1 a 3.2 pan fo'u prif rôl fel athro neu weithiwr cymorth dysgu.

Tabl 2.2 Cydlynwyr anghenion addysgol arbennig yn ôl cyfrwng ysgol a gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2020

Cyfrwng yr ysgol	Gallu yn y Gymraeg							Cyfanswm
	Dim sgiliau	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedredd	Heb eu casglu	
Cymraeg (a)	*	*	*	*	45	350	10	415
Dwyieithog	*	*	*	*	5	25	*	40
Saesneg	100	280	350	180	60	60	15	1,040
Amherthnasol (b)	20	25	20	10	*	10	*	85
Cyfanswm	120	310	370	190	115	445	25	1,580

Ffynhonnell: CBGY

Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5, ni ddangoswyd y nifer (*)

(a) Yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd a throsiannol.

(b) Cyfrwng yr ysgol yn amherthnasol i feithrinfeydd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

Nod 3: Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn eu bywyd bob dydd. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae angen i ni gael ymarferwyr sydd â'r sgiliau i addysgu Cymraeg fel iaith ac ar draws y cwricwlwm. Mae CBGY yn darparu data blynyddol ar allu ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru yn seiliedig ar 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg' a bydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd o ran cynyddu'n raddol nifer yr ymarferwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch.

Mae gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddadansoddiad ar lefel ysgol o allu ymarferwyr yn y Gymraeg, a byddwn yn disgwyl iddynt ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r gwaith o gynllunio eu cynnig dysgu proffesiynol ac i gyfeirio ymarferwyr at gyrsiau cenedlaethol drwy'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae Tabl 3.1 yn dangos gallu'r holl athrawon yn y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol, waeth ym mha sector y maent yn gweithio. Mae'r data'n dangos y canlynol:

- o gyfanswm o 25,930 o athrawon, mae gan tua 40% (10,140) allu yn y Gymraeg ar lefel ganolradd neu uwch
- mae tua 40% (10,485) o athrawon heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg neu â sgiliau ar lefel mynediad
- mae gan tua 18% (4,730) sgiliau ar lefel sylfaen
- mae'r gyfran uchaf o athrawon sydd â sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg yn yr awdurdodau lleol lle mae canran uwch o addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin
- mae nifer o awdurdodau lleol lle mae sgiliau Cymraeg dros 70% o'r athrawon ar lefel sylfaen neu'n is, sef Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd a Blaenau Gwent.

Tabl 3.1: Gallu athrawon yn y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol, Tachwedd 2020

Awdurdod Lleol (a)	Gallu yn y Gymraeg							Cyfanswm
	Dim sgiliau	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedredd	Heb eu casglu	
Ynys Môn	10	15	15	20	55	415		530
Gwynedd	15	25	20	25	100	775	50	1,010
Conwy	85	165	150	85	90	370	15	960
Sir Ddinbych	105	175	165	75	50	315	10	895
Sir y Fflint	265	295	335	165	85	185	5	1,335
Wrecsam	170	290	290	105	45	215	5	1,115
Powys	205	200	200	115	90	225	35	1,070
Ceredigion	20	30	25	35	135	325	20	590
Sir Benfro	70	250	145	95	60	220	95	935
Sir Gaerfyrddin	95	210	195	115	180	745		1,540
Abertawe	415	490	395	165	75	360		1,905
Castell-nedd Port Talbot	235	255	255	90	50	230		1,120
Pen-y-bont ar Ogwr	260	365	325	95	50	165	10	1,270
Bro Morgannwg	315	380	115	185	75	180	5	1,255
Rhondda Cynon Taf	435	460	315	160	130	500	20	2,025
Merthyr Tudful	90	130	105	55	20	70		475
Caerdydd	740	880	460	130	320	425	180	3,135
Caerffili	295	360	330	105	70	295	15	1,475
Blaenau Gwent	100	170	120	15	15	30	30	475
Torfaen	200	145	165	75	50	85	20	740
Sir Fynwy	210	155	180	50	15	40		650
Casnewydd	325	380	420	105	25	140	50	1,440
Cymru	4,665	5,820	4,730	2,055	1,770	6,315	575	25,930

Ffynhonnell: CBGY

Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

(a) Ar lefel awdurdod lleol, caiff unigolion eu cyfrif ar gyfer pob awdurdod lleol y maent yn ymddangos ynddo. Ar lefel Cymru, unwaith yn unig y caiff unigolion eu cyfrif. Felly, efallai na fydd ffigurau lefel Cymru yn cyfateb i swm yr awdurdodau lleol.

Mae'r data yn nhabl 3.2 yn dangos athrawon yn ôl sector, cyfrwng ysgol a gallu yn y Gymraeg. Mae'r data yn dangos y canlynol:

- mae gan bron 30% o athrawon cynradd mewn ysgolion Saesneg sgiliau Cymraeg ar lefel canolradd neu uwch
- mae gan bron 6% o athrawon ysgolion cyfrwng Cymraeg sgiliau ar lefel sylfaenol neu yn is. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnwys rhai dwy ffrwd a throsiannol, felly gall rhain fod yn athrawon sydd yn dysgu yn Saesneg yn bennaf
- mae'r mwyafrif o athrawon heb sgiliau Cymraeg yn gweithio mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Mae'n glir bod lle i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol weithio gyda'u hysgolion i sicrhau bod cynllunio strategol i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn rhan allweddol o'u cynlluniau datblygu.

Tabl 3.2: Athrawon yn ôl sector, cyfrwng ysgol a gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2020

Sector	Cyfrwng ysgol	Gallu yn y Gymraeg							Cyfanswm
		Dim sgiliau	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedredd	Heb eu casglu	
Meithrin	Amherthnasol (a)	5	10	5	5	*	10	**	40
Cynradd	Cymraeg (b)	15	25	35	35	445	2,530	50	3,135
	Saesneg	235	2,875	3,620	1,540	540	700	85	9,590
	Cyfanswm	250	2,900	3,655	1,575	985	3,225	135	12,725
Canol	Cymraeg (b)	*	30	5	*	45	540	5	630
	Saesneg	220	185	100	40	25	50	35	650
	Cyfanswm	225	210	105	40	70	590	40	1,280
Uwchradd	Cymraeg (b)	115	90	45	55	390	1,595	5	2,295
	Saesneg	3,770	2,230	775	310	290	785	340	8,500

	Cyfanswm	3,885	2,320	820	370	675	2,380	345	10,795
Arbennig	Amherthnasol (a)	200	280	125	50	30	90	45	820
Uned cyfeirio disgyblion	Amherthnasol (a)	95	95	20	15	5	25	5	270
Cyfanswm ysgolion	Cymraeg (b)	140	140	85	95	875	4,660	60	6,060
	Saesneg	4,225	5,290	4,490	1,890	855	1,530	460	18,740
	Amherthnasol (a)	300	390	150	70	40	125	50	1,130
	Cyfanswm	4,665	5,820	4,730	2,055	1,770	6,315	575	25,930

Ffynhonnell: CBGY

Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5, ni ddangoswyd y nifer (*)

(a) Cyfrwng yr ysgol yn amherthnasol i feithrinfeydd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion

(b) Yn cynnwys ysgolion dwy ffrwd, trosiannol a dwyieithog.

Mae athrawon cyflenwi yn rhan hanfodol o'n gweithlu ac yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad ein dysgwyr. Byddant yn gallu cael mynediad i'r rhaglen genedlaethol o gyrsiau Cymraeg a gynigir drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd y data yn nhabl 3.3 yn darparu gwaelodlin i bennu a fydd nifer yr athrawon cyflenwi sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl gallu i siarad Cymraeg yn cynyddu yn y dyfodol.

Tabl 3.3: Nifer yr athrawon cyflenwi a gofrestrwyd gyda CGA yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg

Gallu i siarad Cymraeg	2017		2018		2019		2020		2021	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Ydy	1,475	30.8	1,427	30.4	1,317	27.7	1,295	27.9	1,128	26.7
Nac ydy	3,169	66.2	3,190	68.0	3,441	72.3	3,325	71.7	3,077	72.9
Anhysbys	143	3.0	76	1.6	1	0.0	15	0.3	17	0.4
Cyfanswm	4,787	100	4,693	100	4,759	100	4,635	100	4,222	100

Ffynhonnell: CGA

Nod 4: Meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu

Fel y nodwyd yn y cynllun, os ydym am gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg Gymraeg yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050, bydd angen i ni sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ac arweinwyr uwch ar gyfer y sector.

Tabl 4.1: Nifer yr ysgolion yng Nghymru a nifer y penaethiaid ar ysgolion ffederal, Ebrill 2021

	Cyfrwng Saesneg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg â phenaethiaid ffederal*	Cyfrwng Cymraeg â phenaethiaid ffederal *
Ysgolion cynradd	835	384	47	37
Ysgolion canol	11	12	0	0
Ysgolion uwchradd	138	44	3	1
Cyfanswm	984	440	50	38

Ffynhonnell: CYBLD

*Wedi cyfrif ysgolion a nododd fod ganddynt gorff llywodraethu ffederal

Fel yr amlinellir yn nhabl 4.1, yn 2021 roedd cyfanswm o 440 o ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, dwy ffrwd a throsiannol. O'r 440 o ysgolion hynny, nodir fod gan 38 ohonynt gorff llywodraethu ffederal, gyda 19 o benaethiaid sy'n arwain mwy nag un ysgol. Felly, nifer bresennol y penaethiaid sydd eu hangen i arwain ysgolion cyfrwng Cymraeg yw tua 421. Mae tabl 4.2 yn dangos nifer yr arweinwyr ysgolion a gyflogir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg yn ôl gallu i siarad Cymraeg. Mae nifer y penaethiaid neu benaethiaid gweithredol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2020, sef 360, yn is na chyfanswm nifer yr ysgolion. Roedd 25 pennaeth dros dro mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, sy'n awgrymu bod tua 36 swydd pennaeth yn wag neu yn cael ei arwain gan ddirprwy bennaeth neu bennaeth cynorthwyol neu mae'n bosibl bod nifer o ysgolion wedi'u ffederaleiddio'n anffurfiol.

Mae'r data ar allu ieithyddol penaeithiaid yn nhabl 4.2 yn dangos y canlynol mewn perthynas â 2020:

- roedd 1,495 o arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog neu gyfrwng Saesneg yn gallu siarad Cymraeg ar lefel canolradd neu uwch (45%)
- roedd bron bob arweinydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn gallu siarad Cymraeg ar lefel canolradd neu uwch
- roedd 255 pennaeth neu bennaeth gweithredol yn gallu siarad Cymraeg ar lefel canolradd neu uwch (29%).

Tabl 4.2: Athrawon mewn arweinyddiaeth yn ôl cyfrwng ysgol, rôl a'u gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2020

Cyfrwng ysgol	Rôl arweinyddiaeth	Gallu yn y Gymraeg							
		Dim sgiliau	Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedredd	Heb eu casglu	Cyfanswm
Cyfrwng Cymraeg	Pennaeth gweithredol				*	*	15		15
	Pennaeth		*	*	*	35	265	5	320
	Pennaeth dros dro				*	*	20	*	25
	Dirprwy bennaeth	*	*	*		25	175	*	205
	Pennaeth cynorthwyol	*		*	*	20	135	*	160
	Cyfanswm	*	*	5	5	85	615	10	725
Dwyieithog	Pennaeth gweithredol								
	Pennaeth		*	*		*	25		35
	Pennaeth dros dro	*							*
	Dirprwy bennaeth		*		*	5	35		45

	Pennaeth cynorthwyol	*	*	*	*	10	50		70
	Cyfanswm	*	10	*	5	20	110		150
Cyfrwng Saesneg	Pennaeth gweithredol	5	10	15	*	*	*	*	45
	Pennaeth	80	255	250	125	40	80	10	840
	Pennaeth dros dro	*	20	30	10	*	10	*	80
	Dirprwy bennaeth	90	225	265	120	45	60	10	815
	Pennaeth cynorthwyol	205	190	105	60	35	55	20	670
	Cyfanswm	385	700	665	320	125	210	45	2,445
Amherthnasol	Pennaeth gweithredol		*				*	*	*
	Pennaeth	15	25	5	*	*	10	*	65
	Pennaeth dros dro		*				*		*
	Dirprwy bennaeth	15	25	5	5		10	*	55
	Pennaeth cynorthwyol	15	25	5	*	*	10	*	60
	Cyfanswm	40	80	20	10	5	25	5	190
Pob ysgol	Pennaeth gweithredol	5	10	15	5	*	15	*	60
	Pennaeth	95	285	260	130	85	380	20	1,255
	Pennaeth dros dro	5	20	30	15	5	35	*	115
	Dirprwy bennaeth	100	250	270	130	80	275	15	1,120

	Pennaeth cynorthwyol	225	220	115	65	65	250	25	960
	Cyfanswm	430	785	695	345	235	960	65	3,510

Ffynhonnell: CBGY

Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5, ni ddangoswyd y nifer (*)

Mae tabl 4.3 yn cynnwys data ar oedran arweinwyr ysgolion sydd yn nodi eu gallu yn y Gymraeg fel canolradd neu uwch yn ôl sector ysgol, rôl ac oed, Tachwedd 2020. Mae'n dangos y canlynol i ni:

- Yn 2020, roedd 46% o benaethiaid (gan gynnwys penaethiaid gweithredol a phenaethiaid dros dro) yn 50 oed neu'n hŷn, gyda 42% yn 40 i 49 oed a dim ond 11% yn 39 oed neu'n iau
- Yn 2020, roedd gan ddirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol broffil oedran tebyg iawn gyda 22% yn 50 oed neu'n hŷn, hyd at 51% rhwng 40 a 49 oed a 30% yn 39 oed neu'n iau.

Byddai hyn yn awgrymu bod dilyniant naturiol yn oedran y rheini sy'n mynd o rolau cynorthwyol a dirprwy i brifathrawiaeth, a bod llwybrau i brifathrawiaeth yn hanfodol i greu'r gronfa o benaethiaid yn y dyfodol.

Tabl 4.3: Arweinwyr ysgol â sgiliau uwch na lefel canolradd yn ôl sector, rôl ac oedran, Tachwedd 2020

Sector	Rôl	25 i 29 oed	30 i 39 oed	40 i 49 oed	50 i 59 oed	60 oed a hŷn	Cyfanswm
Meithrin a chynradd	Pennaeth gweithredol		*	5	10		20
	Pennaeth		55	220	230	15	520
	Pennaeth dros dro		15	25	10	*	50
	Cyfanswm penaethiaid		70	250	250	15	590
	Dirprwy bennaeth	5	115	180	70	5	380
	Pennaeth cynorthwyol	*	40	80	25	*	150
	Cyfanswm	5	230	515	350	25	1,120
Canol	Pennaeth gweithredol				*		*
	Pennaeth		*	*	5		10
	Pennaeth dros dro						
	Cyfanswm penaethiaid		*	*	10		10
	Dirprwy bennaeth		5	10	*		20
	Pennaeth cynorthwyol	*	10	20	10		40
	Cyfanswm	*	15	30	25		70
Uwchradd	Pennaeth gweithredol				*		*
	Pennaeth		*	25	25	*	55
	Pennaeth dros dro			*			*
	Cyfanswm penaethiaid		*	25	25	*	60
	Dirprwy bennaeth	*	15	35	20	*	70
	Pennaeth cynorthwyol	*	45	90	40	*	175
	Cyfanswm	*	65	150	85	5	305
Cyfanswm ysgolion	Pennaeth gweithredol		*	5	15		25
	Pennaeth		60	250	270	15	595
	Pennaeth dros dro		15	25	10	*	50

	Cyfanswm penaethiaid		75	285	295	20	675
	Dirprwy bennaeth	5	140	235	95	10	485
	Pennaeth cynorthwyol	5	100	195	80	*	380
	Cyfanswm	10	310	690	460	30	1,495

Ffynhonnell: CBGY

Gwerthoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Lle bo'r nifer yn llai na 5, ni ddangoswyd y nifer (*).

Mae'n ofynnol i bennaethiaid feddu ar yr achrediad Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol (CPCP) ar gyfer prifathrawiaeth fel trothwy ar gyfer mynediad i brifathrawiaeth. Mae tabl 4.4 yn amlinellu nifer yr ymgeiswyr sydd wedi ymgymryd â'r CPCP dros y 5 mlynedd diwethaf. Dim ond 4 ymgeisydd a gafodd eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020 i 2021. Dewisodd 22.46% o'r holl ymgeiswyr hyd at asesiad ym mis Chwefror 2020 y Gymraeg fel eu hiaith asesu. Mae nifer yr ymgeiswyr sy'n dod ymlaen o ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond mae niferoedd cynyddol yn dewis cael eu hasesu yn Saesneg. Mae ymgeiswyr llwyddiannus sy'n sefyll asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng o uchafbwynt o 90.7% yn 2017 i isafbwynt o 60.98% yn 2019. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cefnogi arweinwyr a darpar arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Tabl 4.4: Nifer yr ymgeiswyr CPCP a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg

Cymru	Nifer yr ymgeiswyr a wnaeth gais	Nifer yr ymgeiswyr a aseswyd	Nifer yr ymgeiswyr a aseswyd drwy gyfrwng y Gymraeg	Nifer yr ymgeiswyr a basiodd	Nifer yr ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg a basiodd	Ymgeiswyr llwyddiannus cyfrwng Cymraeg cynradd	Ymgeiswyr llwyddiannus cyfrwng Cymraeg uwchradd	Ymgeiswyr llwyddiannus cyfrwng Cymraeg arbennig
2020 i 2021	68	60	4	49	4	2	2	0
2019 i 2020	190	166	34	137	25	18	6	1
2018 i 2019	220	213	51	168	45	32	13	0
2017 i 2018	226	208	42	176	39	35	3	1
2016 i 2017	152	150	43	126	28	20	8	0

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru